

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod:	26 Chwefror 2015
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol / Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
Awdur yr Adroddiad:	Prif Reolwr: Cymorth Busnes
Teitl:	Diweddariad ynglŷn â'r heriau a amlygwyd yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2013-14

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad am yr heriau a nodwyd yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2013-14, ac yn tynnu sylw at y cynnydd yr ydym wedi ei wneud wrth fynd i'r afael â'r heriau hynny yn ystod 2014-15.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Er mwyn galluogi'r Aelodau i graffu ar berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol i weld a oes digon o gynnydd yn cael ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod yr Aelodau'n trafod yr adroddiad ac yn tynnu sylw at unrhyw feysydd y mae angen craffu arnynt ymhellach.

4. Manylion yr Adroddiad

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi adroddiad perfformiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd newydd ddod i ben. Cafodd yr adroddiad blynyddol diweddaraf (ar gyfer 2013-14) ei gyhoeddi ar ddiwedd mis Mehefin 2014.

Yn yr adroddiad hwnnw, cafodd nifer o heriau penodol eu nodi y byddai angen i ni ganolbwyntio arnynt yn ystod 2014/15. Amlygir yr heriau hyn isod, ac mae manylion am sut yr ydym yn ymateb i'r heriau hyn wedi'u cynnwys yn Atodiad I. Cyflwynir dadansoddiad manylach o'n hymateb i'r heriau hyn yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2014/15.

A. Mae angen i ni sicrhau bod pob gofalwr yn cael cynnig adolygiad neu asesiad o'i anghenion.

- B. Mae angen i ni barhau i gynyddu faint o ddefnydd a wneir o Daliadau Uniongyrchol a Chronfeydd Gwasanaeth Unigol er mwyn rhoi rhagor o ryddid i bobl ddewis y gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion asesedig a dewis pwy sy'n eu darparu.
- C. Mae angen i ni barhau i wella presenoldeb yn y gwaith.
- D. Mae angen i ni barhau i gynyddu faint o ymweliadau statudol sy'n cael eu cynnal â phlant sy'n derbyn gofal o fewn y terfynau amser.
- E. Mae angen i ni barhau i wella deilliannau addysgol a chanlyniadau iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- F. Mae angen i ni ymateb i'r heriau a godwyd yn sgil dyfarniad 'colli rhyddid' y Goruchaf Lys o fis Mawrth 2014.
- G. Mae angen i ni gynnal lleoliadau sefydlog ar gyfer plant a phobl ifanc, a lleihau sawl gwaith y maent yn cael eu symud (gan gydnabod nad yw hyn bob amser yn bosibl).

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwneud yn benodol â'n cyfraniad at y gwaith o gyflawni'r ddwy flaenoriaeth gorfforaethol ganlynol:

- Mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol ag sy'n bosibl; a
- Moderneiddio'r Cyngor i gyflawni arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Caiff y gwaith y mae angen ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol. Nid oes unrhyw oblygiadau penodol i wasanaethau eraill.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai bod templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.

Nid oes angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae'n darparu diweddariad ynglŷn â pherfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yn ystod 2014/15, ac nid yw'r adroddiad ei hun yn effeithio mewn unrhyw fodd ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Ni fu angen ymgynghori er mwyn cynhyrchu'r adroddiad hwn, ac eithrio trafodaethau gyda'r ddau wasanaeth dan sylw.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Rhaid i gostau ymdrin â'r materion a nodir yn yr adroddiad fod wedi eu cynnwys o fewn adnoddau presennol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae cofrestr risg fanwl ar gyfer y Gwasanaeth Oedolion a Busnes ac ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Gan mai adroddiad am y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Sir Ddinbych yw hwn, mae unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r materion a nodir ynddo (a'r camau gweithredu i'w lliniaru a'u rheoli) wedi eu cynnwys yng nghofrestrau risg y gwasanaeth.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Canllaw Statudol ynglŷn â Swyddogaeth a Chyfrifoldebau Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a gyhoeddwyd dan Adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970.

Mae Erthygl 6.3.4(b) yn amlinellu pwerau'r drefn o graffu ar fonitro perfformiad ac ar amcanion polisi.

Swyddog Cyswllt: Prif Reolwr: Cymorth Busnes Ffôn: 07825 451448